# Glanhau harneisiau a dillad ceffylau, o dan oruchwyliaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â glanhau harneisiau a dillad ceffylau, o dan oruchwyliaeth. Gallai'r glanhau ddigwydd yn ddyddiol ac yn wythnosol ac mae'n cynnwys golchi a brwsio a gofalu am ledr a gwaith metel.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn unol â chyfarwyddyd goruchwylydd. Gallai hyn fod yn oruchwyliaeth uniongyrchol neu drwy roi cyfarwyddiadau a monitro gwaith.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. glanhau harneisiau a dillad ceffylau trwy wneud gwaith glanhau yn ddyddiol ac yn wythnosol, o dan oruchwyliaeth
3. hysbysu'r goruchwylydd ynghylch namau a diffygion yn yr harneisiau a'r dillad ceffylau
4. bod yn ymwybodol o'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddefnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. peryglon pwythau anniogel neu harneisiau wedi eu niweidio
3. y rhesymau dros lanhau harneisiau a dillad ceffylau yn ddyddiol ac yn wythnosol
4. sut i lanhau harneisiau a dillad ceffylau yn ddyddiol ac yn wythnosol fel mater o drefn
5. y problemau y gall cnofilod eu hachosi wrth storio harneisiau a dillad ceffylau
6. sut i storio harneisiau a dillad ceffylau
7. eich cyfrifoldebau dros iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid.

## Geirfa

Gallai'r mathau o lanhau gynnwys:

- golchi
- iro
- seboni
- brwsio

Namau a diffygion: e.e.

- pwythau anniogel
- biledi/boglynnau/byclau rhydd, wedi torri neu wedi rhydu
- cadwryddion/rhedwyr coll
- gwaith lledr wedi treulio, hollti neu dynnu
- rhwygiadau mewn deunydd

Glanhau harneisiau a dillad ceffylau, o dan oruchwyliaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq106 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; harneisiau; dillad; glanhau |